**PWYLLGOR ARCHWILIO** **AC-06-02(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 18 Gorffennaf 2002 | |
| **Amser:** | 2.00pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Presennol** | **Aelodau** | |
| | Dafydd Wigley (Cadeirydd) | Caernarfon |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | **Tystion** | |
| | Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol |
| | Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth y GIG |
| | Neil Davies | Cyfarwyddwr, Ystadau Iechyd Cymru |
| | Neil Jones | Prif Syrfëwr Ystadau, Is-adran Ystadau |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| | Gillian Body | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| | Ian Summers | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| | David Powell | Swyddog Cydymffurfio’r Cynulliad |
| | Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| | James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1**

**Sesiwn Cymryd Tystiolaeth – Parhau i Adfywio Bae Caerdydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Cymerodd Helen Mary Jones le Jocelyn Davies.
2. Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth gan Jon Shortridge, yn dilyn ymlaen o sesiwn cymryd tystiolaeth ar 16 Mai 2002 yn ymwneud â’r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar *Parhau i Adfywio Bae Caerdydd*. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol lythyr yn ymwneud â’r sesiwn tystiolaeth (a amgaeir yn Atodiad A).

1.3 Atodir trawsysgrifiad gair am air o’r eitem hon fel Atodiad B i’r cofnodion hyn.

**Eitem 2**

**Sesiwn Cymryd Tystiolaeth - Adnewyddu a Gwaredu Eiddo a ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru**

Papur: AC-06-02(p1)

1. Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth gan Ann Lloyd, Neil Davies a Neil Jones mewn perthynas â’r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Adnewyddu a Gwaredu Eiddo a ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru*.
2. Atodir trawsysgrifiad gair am air o’r eitem hon fel Atodiad C i’r cofnodion hyn.

**Eitem 3**

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Papur: AC-05-02(min)

3.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Eitem 4**

**Papurau i’w nodi**

Papurau: AC 06-02(t2), (t3), (t4), (t5) a (t7)

1. Datganodd Val Lloyd ei bod yn gyn Gynghorydd dros Abertawe. Nododd y pwyllgor y papurau canlynol:

- Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru par ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio: *Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Proffesiynol y Dyfodol ym maes Iechyd i Gymru*.
- Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas ag ystyriaeth y pwyllgor i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: *Parhau i Adfywio Bae Caerdydd*.
- Gohebiaeth gan Gronfa Genedlaethol Cymru Abertawe mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor Archwilio 'Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd’ (a gyhoeddwyd ar 16 Ebrill 2002).
- Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru par ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio: *Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng*

*Nghymru*.

- Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru par Clwy’r Traed a’r Genau: Adroddiad y Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol.

**Eitem 5**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio - Adroddiad Cyffredinol ar Waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-2001**

Papur: AC-06-02(t6)

1. Penderfynodd y pwyllgor warhardd y cyhoedd o'r cyfarfod tra roeddent yn ystyried yr adroddiad drafft yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi), *'Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod: (vi) lle mae’r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae’n bwriadu ei gyhoeddi'*.
2. Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad drafft.
3. Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru gyflwyniad llafar byr ar ohebiaeth a dderbyniwyd ganddo ef a’r Cadeirydd. Cadarnhaodd y pwyllgor bod ganddynt bob ffydd yng ngwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wrth ymdrin â’r mater hwn.
4. Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod pwyllgor olaf y Clerc a’r Dirprwy Glerc. Diolchodd yr Aelodau i’r Clercod am y gwaith a gyflawnwyd ganddynt yn ystod eu cyfnod gyda’r pwyllgor.

   Daeth y cyfarfod i ben am 4.43pm.